Fframwaith Cymhwysedd

Cyf: 352A2014

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Fframwaith Cymhwysedd Swyddfa Archwilio Cymru

	Cyfathrebu a Dylanwadu	Cyflawni canlyniadau a gwelliant parhaus	Gwaith tîm	Deall a datblygu'r busnes	Gwybodaeth dechnegol/am y swydd	Dadansoddi, Datrys problemau a Meddwl beirniadol	Effeithiolrwydd ac arweinyddiaeth bersonol
Grŵp 1	Rwyf yn cyfathrebu'n broffesiynol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau	Rwyf yn cwblhau tasgau i'r safon ofynnol yn unol â'r amserlen a'r gyllideb	Rwyf yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r tîm	Rwyf yn deall gweledigaeth, polisïau a gweithdrefnau SAC a sut rwyf yn cyfrannu at nodau SAC ac yn eu datblygu	Rwyf yn dysgu, yn cyfleu ac yn cymhwyso gwybodaeth sylfaenol yn fy newis faes	Rwyf yn dadansoddi tystiolaeth er mwyn nodi meysydd i'w gwella ac yn cynnig atebion	Rwyf yn dangos sgiliau trefnu ac hunanymwy-byddiaeth dda
Grŵp 2	Rwyf yn cyfathrebu'n awdurdodol ac yn dylanwadu ar eraill	Rwyf yn blaenoriaethu fy llwyth gwaith fy hun a llwyth gwaith eraill er mwyn sicrhau y caiff canlyniadau eu cyflawni	Rwyf yn arwain ac yn hyrwyddo timau cadarnhaol	Rwyf yn deall gweledigaeth, polisïau a gweithdrefnau SAC, a sut rwyf i a'm tîm yn cyfrannu at nodau SAC	Rwyf yn cyfleu ac yn cymhwyso gwybodaeth gynhwysfawr yn fy newis faes	Rwyf yn mynegi barn gadarn ac yn gwneud penderfyniadau o fewn fy maes cyfrifoldeb	Rwyf yn arwain drwy esiampl mewn ffordd deg a hyblyg
Grŵp 3	Rwyf yn cyfathrebu ac yn dylanwadu ar eraill er mwyn rhoi newidiadau ar waith	Rwyf yn rhoi cyfarwyddyd i eraill ac yn cyfrannu at ein strategaeth	Rwyf yn creu amgylchedd i dimau ffynnu	Rwyf yn llywio, yn pennu ac yn datblygu gweledigaeth a chyfeiriad SAC	Rwyf yn cyfleu ac yn cymhwyso gwybodaeth arbenigol yn fy newis faes	Rwyf yn mynegi barn gadarn ac yn gwneud penderfyniadau strategol mewn perthynas â phynciau busnes pwysig fel y bo'n briodol	Rwyf yn cyfleu hygrededd personol ac awdurdod proffesiynol i ddarparu arweinyddiaeth ar y lefel uchaf

Cyfathrebu a dylanwadu

Rwyf yn cyfathrebu'n hyderus, yn broffesiynol, yn awdurdodol ac yn eglur, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Rwyf yn defnyddio amrywiaeth o sgiliau cyfathrebu effeithiol i gysylltu'n effeithiol â chysylltiadau mewnol ac allanol ac yn addasu fy arddull i weddu i'r gynulleidfa. Rwyf yn gwrando'n astud ar safbwyntiau a phroblemau eraill.

Pan fydd cyfathrebu a dylanwadu yn mynd yn dda

Grŵp 1: Rwyf yn cyfathrebu'n broffesiynol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau	Grŵp 2: Rwyf yn cyfathrebu'n awdurdodol ac yn dylanwadu ar eraill	Grŵp 3: Rwyf yn cyfathrebu ac yn dylanwadu ar eraill er mwyn rhoi newidiadau ar waith
Rwyf yn siarad yn glir, yn rhesymegol, yn gryno ac yn ddarbwyllol gyda chynulleidfaoedd mewnol ac allanol mewn ffordd barchus.	Rwyf yn siarad yn hyderus ac yn teilwra fy arddull gyfathrebu er mwyn mynegi safbwyntiau mewn ffordd gytbwys ac awdurdodol.	Rwyf yn siarad mewn ffordd glir a strwythuredig. Gallaf ddarbwyllo, dylanwadu a hysbysu eraill heb unrhyw waith paratoi a chadarnhau eu bod wedi deall fy neges.
Rwyf yn ysgrifennu'n gywir, yn glir ac yn gryno gan ddefnyddio Saesneg/Cymraeg clir.	Rwyf yn ysgrifennu ac yn adolygu dogfennau sy'n cael yr effaith fwyaf posibl mewn ffordd resymegol a darbwyllol.	Rwyf yn ysgrifennu ac yn adolygu dogfennau ysgrifenedig cymhleth sydd wedi'u hanelu at amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd. Rwyf yn crynhoi gwybodaeth gymhleth mewn ffordd effeithiol.
Rwyf yn cyfathrebu'n hyderus ac mewn ffordd sensitif er mwyn ymgysylltu â phobl a meithrin cydberthnasau gwaith effeithiol.	Rwyf yn ennyn ymrwymiad ac yn rhoi newidiadau ar waith drwy ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau dylanwadu.	Rwyf yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn egluro gweledigaeth, nodau, strategaeth a pholisi SAC.
Rwyf yn gwrando ar eraill ac yn ystyried eu safbwyntiau.	Rwyf yn defnyddio sgiliau holi a gwrando gweithredol lefel uchel i feithrin dealltwriaeth lawn o wybodaeth a safbwyntiau eraill.	Rwyf yn holi mewn ffordd fedrus, a bob amser yn gwrando ac yn herio gwahanol safbwyntiau fel y bo'n briodol.
Rwyf yn cyfathrebu yn yr arddull sy'n gweddu orau i'r gynulleidfa a'r wybodaeth sy'n cael ei chyfleu. Rwyf yn berson hawdd mynd ato, yn barod fy nghymwynas, yn gefnogol ac yn annog pobl eraill.	Rwyf yn cynnal cyfathrebu dwy ffordd gyda rhanddeiliaid allweddol ar lefel uwch.	Rwyf yn meithrin ac yn cynnal sianelau cyfathrebu effeithiol gyda rhanddeiliaid allweddol ar lefel uwch. Rwyf yn berson hawdd mynd ato, yn barod fy nghymwynas, yn gefnogol ac yn annog pobl eraill.

Pan na fydd cyfathrebu a dylanwadu yn mynd yn dda

- Rwyf yn ysgrifennu mewn ffordd ddistrwythur, dryslyd ac aneglur
- Nid wyf yn ymddangos yn unigolyn hyderus a phroffesiynol
- Rwyf yn diystyru safbwyntiau eraill ac yn rhoi adborth i eraill mewn ffordd sarhaus neu sy'n eu bychanu
- Rwyf yn dominyddu sgyrsiau yn hytrach na gwrando ar safbwyntiau eraill
- Nid wyf yn meithrin cydberthnasau gwaith cryf ac rwyf yn gweithio ar fy mhen fy hun
- Nid wyf yn ymgysylltu nac yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd
- Rwyf yn tueddu i ganolbwyntio ar ffactorau negyddol a meithrin diwylliant o feio
- Nid wyf yn ystyried fy nghynulleidfa ac rwyf yn methu â dal eu sylw
- Rwyf yn methu â chymell na darbwyllo pobl
- Rwyf yn osgoi cyfathrebu wyneb yn wyneb ac yn defnyddio negeseuon e-bost lle byddai sgwrs wedi bod yn fwy effeithiol

Cyflawni canlyniadau a gwelliant parhaus

Rwyf yn anelu at fodloni gofynion y busnes drwy roi amrywiaeth o adnoddau a thechnegau cynllunio a rheoli ar waith; rwyf yn llwyddo i gyflawni amcanion unigol ac amcanion tîm, sy'n cyfrannu at gyflawni nodau'r sefydliad.

Pan fydd cyflawni canlyniadau a gwelliant parhaus yn mynd yn dda

Grŵp 1: Rwyf yn cwblhau tasgau i'r safon ofynnol	Grŵp 2: Rwyf yn blaenoriaethu fy llwyth gwaith fy hun a llwyth gwaith eraill	Grŵp 3: Rwyf yn rhoi cyfarwyddyd i eraill ac yn cyfrannu at strategaeth
Mae gennyf nodau clir yr wyf yn eu deall yn llawn.	Rwyf yn pennu nodau heriol/ymestynnol i fi fy hun ac i'm tîm.	Rwyf yn pennu nodau ar gyfer fy maes o fewn y sefydliad ac ar gyfer y sefydliad ei hun ac yn arwain y broses o'u cyflawni.
Rwyf yn blaenoriaethu fy ngwaith yn ôl brys a phwysigrwydd.	Rwyf yn gweithredu systemau monitro perfformiad effeithiol er mwyn adolygu cynnydd ac ansawdd gwaith.	Rwyf yn cynnal trosolwg o'r gwaith yn fy maes cyfrifoldeb er mwyn monitro cynnydd prosiectau a thasgau.
Rwyf yn dal ati â thasgau hyd nes y byddant wedi'u cwblhau.	Rwyf yn sicrhau fy mod i a'm tîm yn dal ati ag unrhyw waith hyd nes y bydd wedi'i gwblhau.	Rwyf yn monitro staff a chyfraddau cwblhau gwaith ar draws fy rhan i o'r sefydliad.
Rwyf yn llunio barnau realistig am yr hyn y gellir ei gyflawni ac yn rheoli disgwyliadau yn unol â hynny.	Rwyf yn rheoli disgwyliadau cleientiaid ac uwch arweinwyr er mwyn sicrhau nad oes unrhyw beth annisgwyl yn digwydd. Rwyf yn hysbysu'r partïon perthnasol am unrhyw achosion o oedi.	Rwyf yn barod i dderbyn adborth o bob lefel ac yn gweithredu ar yr adborth hwnnw er mwyn dysgu, datblygu a newid. Rwyf yn rheoli disgwyliadau staff a rhanddeiliaid.
Rwyf yn dangos blaengaredd wrth gyflwyno ffyrdd mwy effeithlon o weithio er mwyn gwella ansawdd a chwmpas y gwasanaeth.	Rwyf yn chwilio am ffyrdd arloesol o weithio er mwyn cyflawni gwelliant. Rwyf yn annog eraill i wneud yr un peth.	Rwyf yn arwain wrth gyflwyno ffyrdd newydd o weithio a gwella ansawdd gwaith a gwblheir.
Rwyf yn cymryd rhan weithredol a chadarnhaol mewn cyfarfodydd tîm a digwyddiadau dysgu ar ôl prosiectau.	Rwyf yn sicrhau y caiff pob prosiect ei werthuso ac y caiff y pwyntiau dysgu eu cyfleu.	Rwyf yn cynnal trosolwg o waith y sefydliad ac yn ystyried sut y gellir ei wella er mwyn ychwanegu mwy o werth.
Rwyf yn cynllunio ac yn cyfathrebu fy ngwaith fy hun yn effeithiol.	Rwyf yn sicrhau ac yn trefnu'r adnoddau sydd eu hangen i gwblhau tasgau ac yn defnyddio'r adnoddau hynny'n effeithiol ac yn datrys unrhyw ddiffygion neu achosion o aneffeithlonrwydd.	Rwyf yn cynllunio'n effeithiol ac yn strategol er mwyn sicrhau y gellir rhoi cynlluniau gwaith presennol SAC ar waith a'i chynlluniau gwaith ar gyfer y dyfodol.

Pan na fydd cyflawni canlyniadau a gwelliant parhaus yn mynd yn dda

- Rwyf yn cynhyrchu gwaith sy'n gofyn am fewnbwn sylweddol gan fy rheolwr llinell, gan fynd dros gyllideb/amser
- Nid wyf yn hysbysu fy rheolwr llinell am broblemau ac nid wyf yn gofyn am help pan fydd ei angen
- Rwyf yn cynhyrchu gwaith o ansawdd gwael, gan newid nodau ar sail ad-hoc - nid wyf yn dirprwyo nac yn cynnwys eraill - nid wyf yn gwneud cynnydd
- Rwyf yn anwybyddu adborth ac nid wyf yn gweld bod angen gofyn am safbwyntiau eraill
- Rwyf yn beio ffactorau y tu hwnt i'm rheolaeth am danberfformiad
- Rwyf yn addo gormod ac yn tangyflawni, gan wneud defnydd gwael o'r adnoddau sydd ar gael
- Rwyf yn methu â chynllunio a blaenoriaethu gweithgareddau ac felly nid wyf yn pennu blaenoriaethau'n effeithiol
- Nid yw cyfeiriad fy ngwaith yn eglur

- Rwyf yn gweithredu mewn ffordd hunanol ac yn atal eraill rhag cyflawni eu rolau
- Rwyf yn anfon negeseuon e-bost sy'n gorchymyn
- Nid wyf yn cynnig awgrymiadau ar gyfer gwella
- Rwyf yn canslo cyfarfodydd ar fyr rybudd
- Nid wyf yn edrych ar y darlun cyfan ac mae'r manylion yn fy llethu

Gwaith tîm

Rwyf yn gweithio'n effeithiol ac yn gynhwysol gyda chydweithwyr, rhanddeiliaid, timau ac unigolion o fewn y sefydliad ac yn allanol er mwyn meithrin a datblygu cydberthnasau ag ymddiriedaeth; rwyf yn gwerthfawrogi gwahanol sgiliau ac arbenigedd cydweithwyr ac yn eu defnyddio; rwyf yn meithrin annibyniaeth er mwyn cyflawni nodau a rennir.

Pan fydd gwaith tîm yn mynd yn dda

Grŵp 1: Rwyf yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r tîm	Grŵp 2: Rwyf yn arwain ac yn hyrwyddo timau cadarnhaol	Grŵp 3: Rwyf yn creu amgylchedd i dimau ffynnu
Rwyf yn canolbwyntio ar nodau'r tîm ac yn dangos ymrwymiad i'w cyflawni.	Rwyf yn arwain timau perfformiad uchel er mwyn cyflawni nodau.	Rwyf yn datblygu, yn ysbrydoli ac yn cymell timau i gyflawni amcanion yn unol â strategaeth SAC.
Rwyf yn meithrin cydberthnasau cryf yn seiliedig ar degwch, ymddiriedaeth, natur agored, uniondeb a pharch.	Rwyf yn datblygu timau yn seiliedig ar degwch, ymddiriedaeth, natur agored, uniondeb a pharch.	Rwyf yn arwain drwy esiampl ac yn creu timau ar draws y sefydliad sy'n seiliedig ar degwch, ymddiriedaeth, natur agored, uniondeb a pharch.
Rwyf yn gwerthfawrogi pob aelod o'r tîm ac yn eu cynnwys ac yn parchu amrywiaeth.	Rwyf yn dangos tegwch ac uniondeb er mwyn creu timau perfformiad uchel. Rwyf yn parchu amrywiaeth o fewn y tîm.	Rwyf yn fodel rôl ar gyfer tegwch ac uniondeb ar draws SAC. Rwyf yn gwerthfawrogi mewnbwn pob cyflogai, gan werthfawrogi amrywiaeth o fewn y sefydliad.
Rwyf yn gwneud cyfraniad cadarnhaol mewn timau gan feithrin cydberthnasau cryf gydag eraill.	Rwyf yn arwain cyfarfodydd tîm gan ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau i ymgysylltu ag aelodau o'r tîm a meithrin amgylchedd tîm cadarnhaol, gan annog unigolion i fod yn rhan o benderfyniadau.	Rwyf yn meithrin diwylliant lle y gall gwaith tîm ffynnu ac yn sicrhau bod y diwylliant hwnnw yn rhan annatod o'r sefydliad. Rwyf yn gosod y sylfeini ar gyfer timau perfformiad uchel gan hyrwyddo gwaith tîm a chydweithredu.
Rwyf yn barod i rannu safbwyntiau a syniadau er mwyn gallu rhannu arfer gorau.	Rwyf yn arwain trafodaethau er mwyn gallu rhannu safbwyntiau, syniadau ac arfer gorau.	Rwyf yn meithrin diwylliant o rannu safbwyntiau, syniadau ac arfer gorau.
Rwyf yn herio'n briodol ac yn cynnig adborth adeiladol ac amserol. Rwyf yn barod i dderbyn adborth ac yn gwneud hynny mewn ffordd gadarnhaol.	Rwyf yn meithrin diwylliant tîm o rannu, trafod a herio mewn ffordd adeiladol. Rwyf yn rhoi adborth adeiladol a hyfforddiant.	Rwyf yn hyrwyddo ac yn rhoi adborth adeiladol a her. Rwyf yn arwain drwy esiampl ac yn hyfforddi er mwyn datblygu timau.

Pan na fydd gwaith tîm yn mynd yn dda

- Rwyf yn gweithredu mewn ffordd hunanol ac yn anelu at nodau personol
- Rwyf yn gweithio ar fy mhen fy hun ac nid wyf yn dangos unrhyw ddiddordeb yn yr hyn y mae'r tîm yn ei wneud
- Rwyf o'r farn mai fy ffordd i yw'r unig ffordd ac anaml y byddaf yn cynnwys eraill
- Nid wyf yn ymgysylltu â phobl mewn timau eraill ac nid wyf yn chwarae rhan weithgar fel aelod o'm tîm uniongyrchol
- Rwyf yn gwrthod cydweithredu wrth ymdrin ag eraill - nid wyf yn sensitif i anghenion, safbwyntiau na gwerthoedd eraill
- Rwyf yn gadael i eraill wynebu anawsterau ac yn beio eraill am fy mhroblemau a'm camgymeriadau
- Rwyf yn cyfrannu at drafodaethau negyddol am gydweithwyr eraill

- Nid wyf yn gytbwys wrth ymdrin ag aelodau o staff neu grwpiau o staff
- Rwyf yn canolbwyntio'n llwyr neu'n bennaf ar y cleient yn hytrach nag ar aelodau o staff
- Rwyf yn methu â chymell na darbwyllo pobl

Deall a datblygu'r busnes

Mae gennyf ddealltwriaeth glir o'r sefydliad, ei weledigaeth a'i gyfeiriad, a'r amgylchedd y mae'n gweithredu o'i fewn. Gallaf feithrin a chynnal cydberthnasau effeithiol yn fewnol ac yn allanol, a chwilio am ffyrdd creadigol ac effeithlon o adeiladu a datblygu'r busnes.

Pan fydd deall a datblygu'r busnes yn mynd yn dda

Grŵp 1: Rwyf yn deall polisïau a gweithdrefnau SAC a sut rwyf yn cyfrannu at nodau	Grŵp 2: Rwyf yn deall gweledigaeth, polisïau a gweithdrefnau SAC, a sut rwyf i a'm tîm yn cyfrannu at y tîm	Grŵp 3: Rwyf yn penderfynu ar weledigaeth a chyfeiriad SAC ac yn eu pennu
Rwyf yn deall nodau a gwaith fy nhîm, a sut maent yn rhan o SAC.	Rwyf yn datblygu amcanion ar gyfer fy nhîm yn unol â strategaeth SAC.	Rwyf yn datblygu amcanion ar lefel grŵp a/neu sefydliad.
Rwyf yn dangos ymwybyddiaeth o gyd-destun lleol a chenedlaethol fy ngwaith fy hun o fewn SAC ac yn sicrhau canlyniadau costeffeithiol.	Rwyf yn dangos dealltwriaeth o gyd-destun lleol a chenedlaethol ar gyfer fy ngwaith fy hun a gwaith fy nhîm.	Rwyf yn dangos dealltwriaeth o'r amgylchedd gwasanaethau cyhoeddus cenedlaethol, yn enwedig y ffactorau allweddol sy'n llywio newid ac yn nodi ble y gallai SAC ychwanegu gwerth.
Rwyf yn meithrin cydberthnasau adeiladol a phroffesiynol yn fewnol ac yn allanol.	Rwyf yn meithrin partneriaethau a rhwydweithiau cynhyrchiol yn fewnol ac yn allanol.	Rwyf yn meithrin cydberthnasau a rhwydweithiau cynhyrchiol er mwyn nodi arfer gorau a chynyddu dylanwad ac effaith SAC.
Rwyf yn nodi cyfleoedd posibl i SAC ddatblygu'r busnes.	Rwyf yn nodi cyfleoedd i ddatblygu'r busnes i SAC. Rwyf yn dewis ac yn manteisio ar gyfleoedd sy'n arwain at yr elw mwyaf neu'r effaith fwyaf.	Rwyf yn datblygu busnes newydd i SAC a fydd yn arwain at elw sylweddol.
Rwyf yn dangos dealltwriaeth o'r rhyngberthnasau rhwng SAC, ei chleientiaid, rhanddeiliaid a dinasyddion.	Rwyf yn dylanwadu ar y rhyngberthnasau rhwng SAC, ei chleientiaid, rhanddeiliaid a dinasyddion.	Rwyf yn llywio ymateb SAC i anghenion cleientiaid mewn ffordd gadarnhaol tra'n parhau'n annibynnol ac yn wrthrychol.
Rwyf yn sicrhau yr ymgymerir â phob darn o waith yn unol â pholisïau a gweithdrefnau SAC.	Rwyf yn nodi ac yn rheoli'r cyfleoedd, y risgiau a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r camau gweithredu a ddewiswyd.	Rwyf yn monitro'r gwaith a wneir gan SAC er mwyn nodi meysydd i'w gwella ac yn rhoi'r gwelliannau hyn ar waith.
Rwyf yn deall gweledigaeth SAC ac yn dangos ymwybyddiaeth ohoni. Rwyf yn atgyfnerthu'r weledigaeth ac yn dangos y gwerthoedd sy'n ei hategu.	Rwyf yn atgyfnerthu gweledigaeth SAC mewn ffordd weithredol. Rwyf yn arwain drwy esiampl ac yn meithrin yr agwedd briodol mewn eraill i ategu'r weledigaeth a'r gwerthoedd.	Rwyf yn llywio ac yn hyrwyddo'r weledigaeth, y strategaeth a'r gwerthoedd i SAC gan gymryd camau i sicrhau bod pob aelod o staff yn eu deall ac yn eu cynnwys fel rhan annatod o'u gwaith.

Pan na fydd deall a datblygu'r busnes yn mynd yn dda

- Rwyf yn canolbwyntio ar gyflawniadau byrdymor ar draul meithrin cydberthnasau effeithiol
- Nid wyf yn ymwybodol o weledigaeth SAC a'r rhan a chwaraeaf i'w chefnogi
- Rwyf yn methu â nodi cyfleoedd busnes
- Nid wyf yn dilyn polisi na gweithdrefnau
- Rwyf yn ymwrthod â newidiadau i'r busnes
- Nid wyf yn ymateb i anghenion cleientiaid nac yn gofyn am adborth

- Nid wyf yn meithrin cydberthnasau gwaith effeithiol
- Nid wyf yn deall cyd-destun lleol a/neu genedlaethol gwaith
- Ni allaf fynegi'r hyn y mae'r sefydliad yn anelu at ei wneud

Gwybodaeth dechnegol/am y swydd

Rwyf yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o'r swydd ac yn gallu cyflawni'r tasgau i'r safon ofynnol. Rwyf yn atebol am fy natblygiad fy hun ac yn edrych am ffyrdd i ddatblygu fy ngwybodaeth dechnegol/gwybodaeth am y swydd.

Pan fydd gwybodaeth dechnegol a gwybodaeth am y swydd yn mynd yn dda

Grŵp 1: Rwyf yn dangos gwybodaeth sylfaenol ac yn cymhwyso'r wybodaeth honno	Grŵp 2: Rwyf yn dangos gwybodaeth gynhwysfawr ac yn cymhwyso'r wybodaeth honno	Grŵp 3: Rwyf yn dangos gwybodaeth arbenigol ac yn cymhwyso'r wybodaeth honno
Rwyf yn diweddaru gwybodaeth dechnegol a phroffesiynol yn rheolaidd.	Rwyf yn sicrhau y caiff fy ngwybodaeth i a gwybodaeth fy staff ei diweddaru'n rheolaidd.	Rwyf yn meithrin gwybodaeth ar draws amrywiaeth o feysydd a grwpiau trawsddisgyblaeth.
Rwyf yn cyflawni gwaith sy'n bodloni'r safon ofynnol.	Rwyf yn darparu gwasanaethau proffesiynol neu wasanaethau rheoli sydd fel arfer yn gofyn am gymhwyster proffesiynol neu hyfforddiant technegol.	Caf fy mharchu yn fy maes/sefydliad proffesiynol y tu hwnt i SAC am fy arbenigedd.
Rwyf yn mynegi barn gadarn.	Rwyf yn mynegi barn gadarn wrth gwblhau fy ngwaith ac wrth adolygu gwaith pobl eraill.	Rwyf yn mynegi barn gadarn ar lefel sefydliadol.
Rwyf yn datblygu fy hun gan gynnal Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).	Rwyf yn datblygu fy hun yn fy maes arbenigedd, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a chan gadw cofnodion Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).	Rwyf yn datblygu arbenigedd penodol ar draws SAC ac yn sicrhau y caiff cofnodion Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) eu cadw.
Rwyf yn cymryd perchenogaeth ac atebolrwydd dros fy natblygiad fy hun.	Rwyf yn rheoli gweithgareddau proffesiynol fy nhîm ac yn eu datblygu drwy roi adborth, iddynt, a'u hyfforddi a'u mentora.	Rwyf yn nodi bylchau o ran arbenigedd ar draws SAC y mae angen eu llenwi drwy hyfforddi neu recriwtio ac yn rhoi camau gweithredu ar waith.
Rwyf yn defnyddio adnoddau a thechnoleg newydd i wella fy effeithlonrwydd fy hun.	Rwyf yn defnyddio adnoddau a thechnoleg newydd i wella fy effeithlonrwydd i ac effeithlonrwydd y tîm.	Rwyf yn defnyddio adnoddau a thechnoleg newydd i wella effeithlonrwydd ar draws SAC.
Rwyf yn meddu ar y wybodaeth i gyflawni amcanion a bennwyd.	Rwyf yn ymgymryd â thasgau a phrosiectau technegol cymhleth.	Ystyrir fy mod yn arbenigwr yn fy maes o fewn SAC sy'n barod i gymryd risg reoledig.

Pan na fydd gwybodaeth dechnegol a gwybodaeth am y swydd yn mynd yn dda

- Rwyf yn cwyno am broblemau heb gynnig atebion posibl
- Rwyf yn cynhyrchu gwaith o ansawdd gwael sydd dros gyllideb ac amser
- Nid wyf yn derbyn unrhyw atebolrwydd am fy natblygiad fy hun ac nid oes gennyf unrhyw gofnodion Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)
- Nid wyf yn gallu dangos proses glir ar gyfer gwneud penderfyniadau
- Rwyf yn cadw gwybodaeth i fi fy hun ac nid wyf yn rhannu arbenigedd
- Rwyf yn cynhyrchu gwaith sy'n gofyn am fewnbwn sylweddol gan fy rheolwr llinell neu uwch reolwr
- Rwyf yn amharod i fentro
- Nid wyf yn rhagweithiol wrth ymdrin â'm hanghenion dysgu a datblygu

Dadansoddi, datrys problemau a meddwl beirniadol

Rwyf yn gwneud penderfyniadau cadarn ac amserol yn seiliedig ar ddadansoddiad gwrthrychol.

Pan fydd dadansoddi, datrys problemau a meddwl beirniadol yn mynd yn dda

Grŵp 1: Rwyf yn dadansoddi tystiolaeth ac yn cynnig atebion	Grŵp 2: Rwyf yn mynegi barn gadarn ac yn gwneud penderfyniadau	Grŵp 3: Rwyf yn mynegi barn gadarn ac yn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â phenderfyniadau busnes pwysig
Rwyf yn nodi'r wybodaeth hanfodol sydd ei hangen i gyflawni'r amcanion a bennwyd, yn chwilio am y wybodaeth honno ac yn ei choladu.	Rwyf yn gweithio gyda chysyniadau cymhleth sy'n aml yn rhyng-gysylltiedig er mwyn gwneud argymhellion cadarn ar gyfer newid.	Mae gennyf allu cadarn i feddwl / dadansoddi a datrys problemau corfforaethol tra'n datrys problemau gweithredol ar yr un pryd.
Rwyf yn cymathu gwybodaeth ac yn cael gwared ar wybodaeth amherthnasol er mwyn crynhoi'r materion allweddol a gwneud penderfyniadau cadarn.	Rwyf yn cymathu gwybodaeth gymhleth, gan lunio barn a chynigion deallus ac ystyrlon.	Rwyf yn cymathu, yn deall, yn dadansoddi ac yn llunio casgliadau yn seiliedig ar ddata cymhleth, gan gysoni gwybodaeth groes er mwyn llunio casgliadau a ystyriwyd yn ofalus.
Rwyf yn deall cysyniadau newydd yn gyflym, yn eu mabwysiadu ac yn eu cyflwyno yn fy ngwaith.	Rwyf yn mynd i'r afael â phynciau, cysyniadau a damcaniaethau anghyfarwydd er mwyn llunio cynigion ar gyfer camau gweithredu arloesol a hyfyw.	Rwyf yn nodi tueddiadau a chysylltiadau allweddol o fewn data cymhleth. Rwyf yn nodi cysylltiadau rhwng data neu sefyllfaoedd lle nad oes unrhyw gyswllt amlwg ar draws gwahanol feysydd busnes. Rwyf yn mynegi barn gadarn ac yn gwneud cynigion.
Rwyf yn nodi dulliau dadansoddol ac ystadegol ar gyfer dadansoddi data ac yn defnyddio'r dulliau hynny.	Rwyf yn asesu'r darlun ehangach yn effeithiol, gan greu cysylltiadau rhwng gwahanol faterion a'u heffaith bosibl.	Rwyf yn llunio strategaeth drwy ddefnyddio dadansoddiad o dueddiadau a datblygiadau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol ehangach sy'n effeithio ar waith SAC.
Rwyf yn dangos blaengaredd a dealltwriaeth wrth gyfrannu'n weithredol at fethodoleg IADC.	Rwyf yn arwain drwy esiampl ac yn annog pobl i feddwl mewn ffordd fwy creadigol er mwyn datrys problemau heriol.	Rwyf yn dangos blaengaredd ac arloesedd wrth chwilio am feysydd i'w gwella o fewn SAC ac ar gyfer ei chleientiaid.
Rwyf yn nodi risgiau a buddiannau er mwyn llunio atebion a ystyriwyd yn ofalus.	Rwyf yn asesu risg yn effeithiol ac yn nodi meysydd i'w gwella.	Rwyf yn llunio strategaeth gorfforaethol drwy ddefnyddio'r gallu i ragweld a modelu senarios posibl ar gyfer y dyfodol.
Rwyf yn gwneud penderfyniadau cadarn o fewn fy maes gwaith fy hun.	Rwyf yn ymgysylltu â meysydd busnes eraill wrth wneud penderfyniadau. Rwyf yn gwneud penderfyniadau cadarn hyd yn oed pan fydd y data ategol yn anghyflawn neu'n anghyson.	Rwyf yn ystyried pob ffactor perthnasol er mwyn llunio barn gadarn ar faterion busnes pwysig, gan wynebu amwysedd neu ansicrwydd yn aml.

Pan na fydd dadansoddi, datrys problemau a meddwl beirniadol yn mynd yn dda

- Ni allaf feddwl yn strategol ac ymddatgysylltaf oddi wrth benderfyniadau a wneir ar lefel gorfforaethol
- Rwyf yn gweithio gan ystyried fy safbwynt fy hun yn unig ac yn derbyn pob darn o dystiolaeth yn ddi-gwestiwn

- Rwyf yn gwneud rhagdybiaethau am faterion ac yn seilio penderfyniadau ar achlust ac nid ffeithiau
- Rwyf yn methu â chreu cysylltiadau rhwng materion, pobl a sefydliadau ehangach
- Nid wyf yn dangos nac yn egluro proses glir ar gyfer gwneud penderfyniadau
- Rwyf yn rhoi gormod o bwyslais ar fanylion, ar draul nodi materion allweddol
- Ni allaf wneud penderfyniadau heb awdurdod ac nid wyf yn barod i dderbyn cyfrifoldeb am y penderfyniadau a wneir
- Rwyf yn canolbwyntio ar y negyddol, gan nodi problemau heb gynnig atebion

Effeithiolrwydd ac arweinyddiaeth bersonol

Rwyf yn dangos ymrwymiad a phenderfyniad clir i gyflawni amcanion. Rwyf yn hunanymwybodol ac yn arwain drwy esiampl.

Pan fydd effeithiolrwydd ac arweinyddiaeth bersonol yn mynd yn dda

Grŵp 1: Rwyf yn dangos sgiliau trefniadol da a hunanymwybyddiaeth	Grŵp 2: Rwyf yn arwain drwy esiampl mewn ffordd deg a hyblyg	Grŵp 3: Rwyf yn dangos hygrededd personol ac awdurdod proffesiynol i ddarparu arweinyddiaeth ar y lefel uchaf
Rwyf yn drefnus, yn rheoli amser yn effeithiol ac yn gynhyrchiol.	Rwyf yn cyfleu hunanhyder, awdurdod a hygrededd wrth arwain tîm i gyflawni ei nodau.	Rwyf yn cyfleu presenoldeb cadarn wrth arwain tîm pwysig o fewn y sefydliad i gyflawni ei nodau. Rwyf yn arwain drwy esiampl.
Rwyf yn derbyn sefyllfaoedd newydd ac yn croesawu newid a her drwy addasu'n gyflym.	Rwyf yn cydnabod yr angen i newid, gan gymryd yr awenau wrth ei gynnig.	Rwyf yn gyfforddus gydag ansicrwydd ac yn croesawu newid yn hawdd. Rwyf yn arwain ac yn gweithredu newid.
Rwyf yn cyfleu hunanymwybyddiaeth ac yn mynd ati i ofyn am adborth o ran datblygiad personol fel rhan o'm Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).	Rwyf yn hunanymwybodol ac yn meddu ar y gallu i ofyn am adborth a rhoi adborth.	Rwyf yn hunanymwybodol ac yn gyfforddus wrth roi a gofyn am adborth gan eraill ar draws y sefydliad.
Rwyf yn cyfrannu'n effeithiol er mwyn ychwanegu gwerth i'r sefydliad.	Rwyf yn barod i wneud penderfyniadau ac yn derbyn cyfrifoldebau amdanynt ac rwyf yn gyfforddus wrth gymryd risg dderbyniol.	Rwyf yn meddwl mewn ffordd glir a phenderfynol o dan bwysau er mwyn arwain, rhoi tawelwch meddwl a chefnogi eraill.
Rwyf yn hunanddechreuwr gyda chymhelliant a phenderfyniad.	Rwyf yn ymdrin â phroblemau yn gadarn, yn benderfynol, yn brydlon ac yn deg.	Rwyf yn llunio barn benderfynol ac yn gwneud penderfyniadau anodd ar ôl ystyried y ffeithiau a safbwyntiau yn ofalus.
Rwyf yn cyfleu ymdeimlad o frys a hyblygrwydd wrth gyflawni fy ngwaith fy hun.	Rwyf yn cyfleu hyblygrwydd arddull wrth ymdrin ag amrywiaeth o faterion a phobl o fewn fy nhîm.	Rwyf yn dangos hyblygrwydd wrth addasu fy arddull i ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion a phobl ar draws y sefydliad.
Rwyf yn anelu at ddatblygu a dysgu o brofiad. Rwyf yn adolygu anghenion datblygu personol yn rheolaidd ac yn gofyn am adborth.	Rwyf yn ceisio datblygu fy hun ac eraill drwy ddysgu o brofiad. Rwyf yn adolygu fy anghenion datblygu fy hun ac anghenion datblygu eraill yn rheolaidd. Rwyf yn gyfforddus wrth roi a gofyn am adborth.	Rwyf yn arwain drwy esiampl drwy ofyn am adborth a thrwy ddangos ymrwymiad cadarn i ddysgu a datblygu. Rwyf yn adolygu anghenion datblygu ar draws y sefydliad. Rwyf yn rhoi adborth a hyfforddiant.

Pan na fydd effeithiolrwydd ac arweinyddiaeth bersonol yn mynd yn dda

- Nid wyf yn gofyn am adborth nac yn rhoi adborth ac rwy'n ymddwyn mewn modd amddiffynnol pan fydd eraill yn rhoi adborth
- Nid wyf yn cynnig canmoliaeth nac anogaeth
- Rwyf yn anwybyddu syniadau newydd a chynigion eraill ac nid wyf yn cynnwys aelodau perthnasol o staff/timau perthnasol yn y broses gwneud penderfyniadau
- Rwyf yn beirniadu gwaith eraill mewn ffordd ddinistriol
- Anaml y byddaf yn herio ac rwyf yn osgoi gwrthdaro, gan ei chael hi'n anodd cael sgyrsiau anodd
- Rwyf yn newid fy meddwl yn aml ac nid wyf yn gorfodi terfynau amser
- Rwyf bob amser yn gweld anawsterau yn hytrach na phosibiliadau ac felly yn defnyddio esgusodion i atal newid

- Rwyf yn dangos agwedd negyddol amhroffesiynol
- Rwyf yn canslo fy ngweithgareddau datblygu i a gweithgareddau datblygu eraill yn ddiangen
- Nid wyf yn nodi anghenion dysgu a datblygu eraill
- Rwyf yn ffafrio aelodau penodol o staff
- Mae gennyf farn anghywir am fy nghryfderau a'm hanghenion datblygu